



Cyfleoedd Masnachu ag Aldi ar gyfer Cwmnïau Cymreig

Yn dilyn cyfarfod diweddar â Llywodraeth Cymru, mae **Aldi** wedi mynegi diddordeb newydd mewn cael eu **cyflwyno** i gyflenwyr Bwyd a Diod Cymreig sy'n gallu cyflenwi ar gyfer unrhyw un o'u categorïau bwyd a diod.

Mae Aldi yn gyfle deniadol i gyflenwyr oherwydd bod yr adwerthwr yn parhau i ddatblygu ei bortffolio o siopau ac maent wedi agor eu 600fed siop ym mis Hydref 2015. Yn nodweddiadol mae siopau Aldi yr un maint â'i gilydd ac yn cynnwys amrediad cryno o **oddeutu 1,350 o gynhyrchion**. Mae cyflenwyr Aldi yn cael budd aruthrol o dyfiant gwerthiannau bwydydd yr adwerthwr yn y DU e.e. +20.3% yn y 52 wythnos hyd 6^{ed} Rhagfyr 2015.

Mae gan Aldi bwyslais cryf ar gynnig ansawdd da am y pris cywir ac maent yn chwilio am gyflenwyr Cymreig sy'n gallu bodloni eu meini prawf penodol sy'n gallu cyflenwi eu **hamrediad labeli eu hunain**. Yn nodweddiadol, mae'r cyfle i gynhyrchwyr Cymreig ag Aldi yn golygu cyflenwi cynhyrchion eu labeli eu hunain cenedlaethol yn rhanbarthol e.e. i mewn i ddepos **Neston (Cilgwri) a/neu Swindon** sef y depos agosaf i Gymru. Mae Aldi wedi dechrau gwaith ar ddepo newydd yng Nghaerdydd a'r bwriad yw y bydd yn weithredol yn chwarter 1^{af} 2017. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfle i gyflenwyr gynnig cynhyrchion newydd neu ychwanegol i Aldi eu hystyried, cyn belled â bod tystiolaeth gymhellol i wneud hynny.

Mae'n rhaid i gyflenwyr sy'n mynegi diddordeb mewn cael eu cyflwyno i Aldi fodloni'r meini prawf canlynol i gael eu hystyried i'w derbyn gan Aldi ar raglen gefnogi Llywodraeth Cymru:

- Profiad o **gyflenwi cynhyrchion labeli eu hunain i adwerthwyr eraill**
- Meddu ar **y gallu i reoli symiau a chyflenwad cyson** i Neston a Swindon – oddeutu 100 o siopau.
- Meddu ar **achrediad technegol BRC**

Bydd rhestr o gyflenwyr sy'n bodloni'r meini prawf canlynol yn cael ei hanfon at Aldi. Os bydd Aldi'n derbyn cyflenwr ar y cam hwn, bydd y cyflenwr yn derbyn rhaglen fer o gefnogaeth oddi wrth fentoriaid profiadol wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru - yn dilyn hyn bydd y cyflenwr mewn sefyllfa i gysylltu'n uniongyrchol ag Aldi. *Bydd rhaglen gefnogaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys y gefnogaeth ganlynol:*

- **Cyfarfod un-i-un/galwad ffôn rhwng y cyflenwr a'r mentor** yn safle'r cyflenwr i baratoi i gyflwyno gwybodaeth i Aldi. Mae angen cyflwyno'r wybodaeth ganlynol i Aldi:
 - **Ffurflenni Gallu Aldi**
 - **Cyflwyniad y Cyflenwr** â Ffotograffau o'r Cynnyrch.
- Bydd cyflenwyr yn derbyn y wybodaeth fewnol ddiweddaraf oddi wrth eu mentor am sut mae Aldi yn gweithio.

Ar ôl cyflwyno Ffurflenni Gallu Aldi a Chyflwyniad y Cyflenwr, dyma'r broses:

- Mae'r cyflenwr yn aros am gysylltiad oddi wrth **Gynorthwy-ydd Prynu Aldi** ar gyfer y categori dan sylw
- Mae'r Gynorthwy-ydd Prynu yn argymhell y cyflenwr ar gyfer cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Prynu
- Mae'r Cyflenwr yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Prynu - y **Cyfarwyddwr Prynu** fydd yn penderfynu cymeradwyo cynnwys y cyflenwr ar y **rhestr dendro**.
- Pan fydd y tendr nesaf yn cyrraedd, cysylltir â'r Cyflenwr i roi gwybod iddynt am y **Tendr sydd ar ddod**.

I gael mwy o wybodaeth neu gofrestru eich cwmni, anfonwch ymateb i bwyd-food@levercliff.co.uk erbyn diwedd y diwrnod gwaith dydd Gwener 5^{ed} Chwefror.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Cyfleoedd i Gwmnïau o Gymru Fasnachu gyda Compass

Yn dilyn Seminar Gwasanaethau Bwyd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, mae Compass wedi mynegi diddordeb mewn cael eu cyflwyno i gyflenwyr bwyd a diod o Gymru a all gyflenwi unrhyw rhai o'u categorïau bwyd a diod nhw.

Mae Compass yn un o brif gwmnïau'r byd ym maes arlwygo a gwasanaethau cefnogi ac mae ganddo refeniw blynyddol o dros £17bn, gydag £1.8bn yn y Deyrnas Unedig. Mae'n gyfle da i gyflenwyr a hoffai gyflenwi'r sector arlwygo yn rhanbarthol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol. Yng Nghymru yn unig, mae gan Compass 354 o unedau arlwygo. Mae Compass yn gweithredu mewn nifer o sectorau yn cynnwys Busnes a Diwydiant, Addysg, Gofal Iechyd, Unedau Ar y Môr ac Unedau Anghysbell, Amddiffyn ynghyd â Chwaraeon a Hamdden. Ym mhob un o'r sectorau hyn, mae ganddo wahanol fathau o unedau arlwygo yn cynnwys Bwytai, Bwyd Moethus, Caffis, Unedau 'Manwerthu' Hwylus a Pheiriannau Gwerthu. Felly, mae Compass yn cynnig cryn botensial i gyflenwyr bwyd a diod o Gymru sydd â chynhyrchion addas ar gyfer y sector hwn ac sy'n cynnig rhywbeth gwahanol i'w gyflenwyr presennol.

Ar hyn o bryd, nid yw Compass wedi pennu isafsymiau yn y meini prawf ar gyfer cyflenwyr sy'n dymuno mynegi diddordeb mewn cael eu cyflwyno iddynt ond cam cyntaf y broses hidlo yw hwn. Gofynnir i'r cwmnïau lenwi'r Proffil atodedig a anfonir wedyn at brynwr y categori perthnasol fel y gall asesu a yw'n teimlo bod potensial i'r cynnyrch yn y busnes ai peidio. Dylid cadw'r proffil yn ddim mwy na dwy dudalen a gellir defnyddio trydedd dudalen ar gyfer ffotograffau os dymunwch.

Os bydd y prynwr yn teimlo bod potensial, cewch eich gwahodd i gyfarfod â'r prynwr i roi cyflwyniad wyneb yn wyneb. Bydd pob cwmni a wahoddir i gwrdd â phrynwr yn cael rhaglen gefnogi fer gan fentoriaid profiadol a benodir gan Lywodraeth Cymru. Bydd rhaglen gefnogi Llywodraeth Cymru'n cynnwys:

- **Cyfarfod un-i-un/sgwrs ffôn rhwng y cyflenwr a'r mentor** i baratoi ar gyfer cyflwyniadau i Compass
- Cyngor ar dynnu lluniau cynhyrchion ar gyfer y **Cyflwyniad Cyflenwr**
- Bydd y cyflenwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar sut y mae Compass yn gweithio gan eu mentor

Os hoffech wybod rhagor neu gofrestru'ch cwmni, atebwch i [bwyd-food@levercliff.co.uk](mailto:food@levercliff.co.uk) erbyn diwedd y diwrnod gwaith, dydd Gwener 5 Chwefror.



Cyfleoedd Masnachu â Lidl ar gyfer Cwmnïau Cymreig

Mae **Lidl** yn adwerthwr disgownt mawr yn y DU â mwy na 600 siop yn y DU a mwy na 50 siop yng Nghymru. Yn ystod blynyddoedd diweddar, maent wedi bod yn un o'r prif lwyddiannau adwerthu yn y DU ac maent wedi cofnodi twf o oddeutu 16% yn 2015 – mae ganddynt oddeutu 4.1% o gyfran y farchnad bwydydd y DU sy'n golygu nhw yw'r adwerthwr bwydydd mwyaf yn y DU ond 7.

Yn dilyn ymgysylltu diweddar, mae Lidl yn awyddus i dderbyn gwybodaeth am gyflenwyr Bwyd a Diod Cymreig sydd â diddordeb. Mae'n rhaid i gyflenwyr sy'n mynegi diddordeb fodloni'r meini prawf canlynol:

- Arddangos dealltwriaeth o gynnis Lidl ar hyn o bryd a sut gall y cyflenwr wella cynnis Lidl i gwsmeriaid
- Meddu ar **achrediad technegol BRC**

Bydd rhestr o gyflenwyr sy'n bodloni'r meini prawf uchod yn cael ei hanfon at Lidl ynghyd â phroffil byr y cyflenwyr. Unwaith y bydd Lidl yn cadarnhau diddordeb ar yr adeg hon, bydd cyflenwr yn derbyn rhaglen fer o gymorth oddi wrth fentoriaid profiadol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u penodi. Bydd y cymorth yn cynnwys:

- Galwad ffôn/cyfarfod un-i-un rhwng y cyflenwr a'r mentor i baratoi ar gyfer cyflwyniadau i Lidl
- Bydd cyflenwyr yn derbyn y wybodaeth fewnol ddiweddaraf oddi wrth eu mentor am sut mae Lidl yn gweithio.
- Galwad ffôn dilynol ar ôl y cyfarfod â Lidl i sicrhau bod y busnes yn cael ei gefnogi i barhau i'r camau nesaf yn dilyn y cyfarfod

I gael mwy o wybodaeth neu gofrestru, anfonwch ymateb i [bwyd-food@levercliff.co.uk](mailto:food@levercliff.co.uk) erbyn diwedd y diwrnod gwaith dydd Gwener 12^{fed} Chwefror.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Cyfleoedd Masnachu â Netto

Mae **Netto** yn adwerthwr disgownt yn y DU – mae'n Fenter ar y Cyd sy'n cynnwys aml adwerthwr arweiniol y DU Sainsbury's ac adwerthwr Danaidd Dansk Supermarket. Os bydd yn llwyddiannus, bydd cam nesaf y fenter ar y cyd yn gweld y fformat newydd yn cael ei chyflwyno ar draws y wlad sy'n cyflwyno cyfle defnyddiol i dyfu i gyflenwyr.

Yn dilyn cyfarfod diweddar â Llywodraeth Cymru, mae Netto wedi mynegi diddordeb mewn cael eu cyflwyno i gyflenwyr Bwyd a Diod Cymreig sy'n gallu cyflenwi eu 15 siop. Mae'r gwahoddiad hwn ar agor i gwmnïau sy'n teimlo eu bod yn gallu cyflenwi cynhyrchion Label eu Hunain neu eu Brandiau i Netto.

Mae'n rhaid i gyflenwyr sy'n mynegi diddordeb mewn cael eu cyflwyno i Netto fodloni'r meini prawf canlynol:

- Arddangos dealltwriaeth o gynnis **Netto** ar hyn o bryd a sut gall y cyflenwr gyfrannu at gynnis Netto i gwsmeriaid
- Bod yn barod i gyflenwi cyn lleied â **15 siop** yn y tymor byr.
- Meddu ar **achrediad technegol BRC**

Bydd rhestr o gyflenwyr sy'n bodloni'r meini prawf uchod yn cael ei hanfon at dîm prynu Netto i'w hystyried ynghyd â phroffil byr y cyflenwyr. Os bydd cyflenwyr o ddiddordeb, byddant yn derbyn cymorth oddi wrth fentoriaid profiadol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u penodi cyn cael eu cyflwyno i gyfarfod â phrynwyr Netto yn uniongyrchol yn Llundain. Bydd y cymorth yn cynnwys:

- Galwad ffôn/cyfarfod un-i-un rhwng y cyflenwr a'r mentor i baratoi ar gyfer cyflwyniadau i Netto
- Bydd cyflenwyr yn derbyn y wybodaeth fewnol ddiweddaraf oddi wrth eu mentor am sut mae Netto yn gweithio.
- Galwad ffôn dilynol ar ôl y cyfarfod â Netto i sicrhau bod y busnes yn cael ei gefnogi i barhau i'r camau nesaf yn dilyn y cyfarfod

I gael mwy o wybodaeth neu gofrestru, anfonwch ymateb i bwyd-food@levercliff.co.uk erbyn diwedd y diwrnod gwaith dydd Gwener 12^{fed} Chwefror.



Cyfleoedd Masnachu â Sainsbury's

Yn dilyn cyfarfod diweddar â Llywodraeth Cymru, mae **Sainsbury's** wedi mynegi diddordeb newydd mewn cael eu cyflwyno i gyflenwyr Bwyd a Diod Cymreig. Mae'r gwahoddiad hwn ar agor i gwmnïau sy'n teimlo eu bod yn gallu cyflenwi cynhyrchion Label eu Hunain i Sainsbury's neu eu Brandiau eu hunain.

Mae Sainsbury's yn adwerthwr sefydledig yng Nghymru ag oddeutu 30 siop allan o bortffolio DU cyfan o 1,200 siop. Gellir torri eu portffolio siopau i lawr i 2 brif segment: oddeutu 600 Archfarchnad, ac oddeutu 600 Siop Cyfleustra (sef JS Local). Mae ganddynt fusnes ar-lein llwyddiannus iawn hefyd. O'r 4 adwerthwr mawr, Sainsbury's sydd wedi cael y perfformiad cryfaf dros y 52 wythnos ddiwethaf o ran Bwydydd, wedi tyfu gan 0.2%. O ran Bwyd a Diod, nhw yw arweinydd y farchnad ond 1, y tu ôl i Tesco sydd â chyfran 16.3% o'r farchnad

Mae'n rhaid i gyflenwyr sy'n mynegi diddordeb mewn cael eu cyflwyno i Sainsbury's fodloni'r meini prawf canlynol:

- Arddangos **Pwynt o Wahaniaeth** i brynwyr categori presennol Sainsbury's
- Meddu ar **achrediad technegol BRC**

Bydd rhestr o gyflenwyr sy'n bodloni'r meini prawf uchod yn cael ei hanfon at Sainsbury's i'w hystyried ynghyd â phroffil byr y cyflenwyr. Os bydd cyflenwyr o ddiddordeb, byddant yn derbyn cymorth oddi wrth fentoriaid profiadol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u penodi cyn cael eu cyflwyno i gyfarfod â phrynwyr categori Sainsbury's yn uniongyrchol yn Llundain. Bydd y cymorth yn cynnwys:

- Galwad ffôn/cyfarfod un-i-un rhwng y cyflenwr a'r mentor i baratoi ar gyfer cyflwyniadau i Sainsbury's
- Bydd cyflenwyr yn derbyn y wybodaeth fewnol ddiweddaraf oddi wrth eu mentor am sut mae Sainsbury's yn gweithio.
- Galwad ffôn dilynol ar ôl y cyfarfod â Sainsbury's i sicrhau bod y busnes yn cael ei gefnogi i barhau i'r camau nesaf yn dilyn y cyfarfod

I gael mwy o wybodaeth neu gofrestru, anfonwch ymateb i [bwyd-food@levercliff.co.uk](mailto:food@levercliff.co.uk) erbyn diwedd y diwrnod gwaith dydd Gwener 12^{fed} Chwefror.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Cyfleoedd i Gwmnïau o Gymru Fasnachu gyda Sodexo

Yn dilyn Seminar Gwasanaethau Bwyd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, mae Sodexo wedi mynegi diddordeb mewn cael eu cyflwyno i gyflenwyr bwyd a diod o Gymru a all gyflenwi unrhyw rhai o'u categorïau bwyd a diod nhw.

Mae Sodexo yn un o brif gwmnïau'r byd ym maes gwasanaethau arlwygo a gwasanaethau cefnogi ac mae ganddo refeniw o dros £1.35bn yn y Deyrnas Unedig yn unig (£620m ohono ym maes bwyd). Mae hwn yn gyfle da i gyflenwyr a hoffai gyflenwi'r sector gwasanaethau arlwygo yn rhanbarthol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol. Mae'n gweithredu mewn nifer o farchnadoedd yn cynnwys marchnadoedd corfforaethol, gwasanaethau'r llywodraeth (cyfiawnder, amddiffyn), gofal iechyd, ysgolion, prifysgolion, chwaraeon a hamdden, ynni ac adnoddau. Mae gwaith arlwygo Sodexo'n cynnwys peiriannau gwerthu, bwydydd parod, prydau sy'n cael eu dosbarthu, digwyddiadau lletygarwch, maeth a siopau. Felly, mae Sodexo'n cynnig cryn botensial i gyflenwyr bwyd a diod o Gymru sydd â chynhyrchion addas ar gyfer y sector hwn ac sy'n cynnig rhywbeth gwahanol i'w gyflenwyr presennol.

Ar hyn o bryd, nid yw Sodexo wedi pennu isafsymiau yn y meini prawf ar gyfer cyflenwyr sy'n dymuno mynegi diddordeb mewn cael eu cyflwyno iddynt ond cam cyntaf y broses hidlo yw hwn. Gofynnir i'r cwmnïau lenwi'r Proffil atodedig a anfonir wedyn at brynwr y categori perthnasol fel y gall asesu a yw'n teimlo bod potensial i'r cynnyrch yn y busnes ai peidio. Dylid cadw'r proffil yn ddim mwy na dwy dudalen a gellir defnyddio'r drydedd dudalen ar gyfer ffotograffau os dymunwch. Sylwch: Gan fod amrywaeth ymhlith ei gyflenwyr yn bwysig i Sodexo, mae angen ateb cwestiwn yn y proffil ynghylch perchnogaeth y cwmni. Os bydd y prynwr yn teimlo bod potensial, cewch eich gwahodd i gyfarfod â'r prynwr i roi cyflwyniad wyneb yn wyneb.

Bydd pob cwmni a wahoddir i gwrdd â phrynwr yn cael rhaglen gefnogi fer gan fentoriaid profiadol a benodir gan Lywodraeth Cymru. Bydd rhaglen gefnogi Llywodraeth Cymru'n cynnwys:

- **Cyfarfod un-i-un/sgwrs ffôn rhwng y cyflenwr a'r mentor** i baratoi ar gyfer cyflwyniadau i Sodexo
- Cyngor ar dynnu lluniau cynhyrchion ar gyfer y **Cyflwyniad Cyflenwr**
- Bydd y cyflenwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar sut y mae Sodexo yn gweithio gan eu mentor

Os hoffech wybod rhagor neu gofrestru'ch cwmni, atebwch i bwyd-food@levercliff.co.uk erbyn diwedd y diwrnod gwaith ddydd Gwener 5 Chwefror.



Cyfle Masnachol Unigryw i Gwmnïau Bwyd a Diod o Gymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bod angen cefnogi ffermwyr a chynhyrchwyr yn 2016 gan ganolbwyntio ar sut i gyflenwi'r marchnadoedd cynyddol ac amrywiol yn y sectorau arlwyio a bwytai a chael budd ohonynt. Dyma gyhoeddi cyfle unigryw a'ch gwahodd i gymryd rhan mewn Digwyddiad Arddangos bwyd a diod wedi'i dargedu at gogyddion a phrynwyr sy'n chwilio am gynhwysion o safon uchel i'w coginio a'u gweini i'w cwsmeriaid chwaethus. Mae cogyddion o'r Caprice Group, y Senedd yn San Steffan, Rotunda yn Kings Cross a Fortnum & Mason wedi cytuno i ddod. Yn ogystal, bydd cyfle i drafod posibilïadau dosbarthu gyda chwmnïau allweddol yn cynnwys Billfields of London, Hook & Line Seafoods, Harvey Brockless, Yes Chef, Café Royal a Café Spice Group.

Manylion y Digwyddiad

Dydd Iau 10 Mawrth 2016

Swyddfa Llywodraeth Cymru, 25 Victoria Street, Westminster, Llundain SW1 0EX

Amser – 9.30am – 3.30pm

Mae'n rhaid i gynhyrchwyr sy'n mynegi diddordeb mewn dod i'r digwyddiad fodloni'r meini prawf isod er mwyn cael eu hystyried.

- Gwneud cynnyrch a gâi ei ystyried yn addas i'w defnyddio gan gogyddion, gyda stori gref am ei darddiad a phwyslais ar ansawdd da.
- Bod yn barod i ddod i'r digwyddiad ac i gydweithio â'r tîm sy'n trefnu i baratoi samplau ac i ddarparu gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth am gefndir y cwmni.
- Bod â phrofiad o gyflenwi cogyddion yn lleol yng Nghymru ac yn gallu cynhyrchu digon fel y gellir ystyried cyflenwi'r farchnad yn Llundain.
- Wedi gweithio, ac yn barod i weithio, gyda thrydydd partïon i sefydlu cysylltiadau dosbarthu.
- Eisoës yn dosbarthu yn y farchnad hon ond yn dymuno cyflenwi cwsmeriaid newydd.
- Wedi sicrhau achrediad cadarn o ran diogelwch bwyd ac yn defnyddio systemau cadarn ar gyfer prosesu a chynhyrchu.

Os cewch eich dewis, cewch eich cefnogi wrth baratoi ar gyfer y digwyddiad ac yn y digwyddiad ei hunan a chewch sesiwn dros y ffôn ar ôl y digwyddiad gyda mentor profiadol.

Os hoffech gofrestru'ch diddordeb, gofynnir i chi ateb erbyn dydd Mercher 10 Chwefror fan bellaf i bwyd-food@levercliff.co.uk gan roi'r geiriau London Showcase yn y blwch pwnc.

**BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES**



Brys: Cyfle i Dendro â Chig Compass

Ar hyn o bryd mae Compass yn gwahodd diddordeb oddi wrth gwmnïau Cymreig i dendro am y cyfle i gyflenwi cynnyrch cig a dofednod. Gallai hyn olygu cyflenwi contractau ar draws y DU ac nid yng Nghymru yn unig. Os hoffech gofrestru eich diddordeb, yna darllenwch eu "Safonau Ffynonellu Cig a Dofednod" sydd wedi atodi i'r neges e-bost hon.

Os yw'ch cwmni'n gallu bodloni gofynion Grŵp Compass a dymunwch gymryd rhan yn y broses dendro bydd angen i chi gwblhau'r proffil cwmni sy'n atodedig ac yna cofrestru eich diddordeb trwy anfon y proffil wedi'i gwblhau i bwyd-food@levercliff.co.uk erbyn diwedd y diwrnod gwaith dydd Gwener 29ain Ionawr.